**PWYLLGOR ADFER**
**6 IONAWR 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Adfer Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Iau, 6 Ionawr 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Clive Carver, Geoff Collett, David Healey, Patrick Heesom, Joe Johnson, Hilary McGuill a Kevin Rush

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Martin White (ar ran Vicky Perfect)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Billy Mullin - Dirprwy Arweinydd (Llywodraethu) a'r Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau, y Cynghorydd Paul Cunningham a'r Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Ian Roberts - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Christine Jones – Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, y Cynghorydd Paul Johnson – Aelod Cabinet Cyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr – Plant, Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio, Ymgynghorydd Perfformiad Strategol, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 51. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 52. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Joe Johnson a'r Cynghorydd Marion Bateman.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 53. AMCANION ADFERIAD CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd â'r amcanion corfforaethol yn yr ail gam hwn o'r adferiad o bandemig Covid-19, lle'r oedd amrywiolyn Omicron yn dechrau effeithio ar wasanaethau. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar adferiad, roedd y pwyslais yn y dyfodol yn debygol

o gael ei effeithio'n sylweddol gan yr angen i weithredu camau gweithredu ymateb trwy gydol mis Ionawr a mis Chwefror 2022.

Roedd nodau cyffredinol y Cyngor o ran adfer fel a gytunwyd o'r blaen, a rhoddodd uwch swyddogion y wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r amcanion adfer corfforaethol yn eu meysydd cyfrifoldeb, fel a nodwyd yn yr adroddiad.

**Cyllid**

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y byddai adroddiad am oblygiadau Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol cyn i'r Cabinet gyflwyno cynigion cyllideb manwl i'r Cyngor ym mis Chwefror. Er gwaetha'r Setliad cadarnhaol, byddai angen cynnydd yn y gofyniad cyllidebol ychwanegol er mwyn bodloni effaith dyfarniadau cyflog a'r Cyflog Byw Gwirioneddol ynghyd â chostau ychwanegol parhaus ac incwm a gollwyd yn sgil y pandemig ar ôl diwedd Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru (LlC) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Byddai cynnal lefelau cronfeydd wrth gefn yn ystyriaeth allweddol ar gyfer gosod cyllideb 2022/23 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Gofynnodd y Cynghorydd David Healey a oedd LlC wedi cytuno i ariannu penderfyniadau cenedlaethol, fel yr ymgodiad arfaethedig o ran cyflogau athrawon. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod LlC wedi bod yn glir wrth ddweud y byddai angen i effaith pob dyfarniad cyflog gael ei liniaru'n llawn o'r Setliad. Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts fod argymhellion wedi'u cyflwyno i'r Gweinidog gan gorff adolygu cyflogau annibynnol a byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus wrth drafod â Chymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Ar ôl cwestiynau gan y Cynghorydd Marion Bateman a'r Cadeirydd, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod y gofyniad cyllidebol ychwanegol o £20.696 miliwn a adroddwyd ym mis Rhagfyr yn cael ei adolygu, er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf.

**Gweithlu**

Siaradodd y Prif Weithredwr am effaith y rheoliadau newidiol a rhoddodd enghreifftiau o fesurau a gyflwynwyd i barhau i gefnogi a sicrhau diogelwch a lles y gweithlu, yn enwedig wrth addasu i weithio gartref. Roedd datblygu protocol drafft i gefnogi egwyddorion gweithio hybrid yn debygol o ragori ar darged LlC i ymgyrraedd ato o ran gweithio o bell. Er bod ail-ddylunio sefydliadol yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan ddatrysiadau technegol, roedd yn bwysig cynyddu hyblygrwydd i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i weithredu'n effeithiol.

Cydnabu'r Prif Swyddog (Llywodraethu) yr her weithio gartref a rhoddodd sicrwydd o ran hyblygrwydd i ddiwallu anghenion gweithwyr wrth sicrhau eu diogelwch.

Wrth ddiolch i'r holl staff, rhoddodd y Cynghorydd Ian Roberts deyrnged benodol i'r rhai yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Stryd, Tai a safleoedd amwynder dinesig am eu gwaith dros gyfnod y Nadolig.

Ailadroddwyd hyn gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Christine Jones, a roddodd deyrnged i dimau yn ei phortffolio.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd athrawon a staff cefnogi wedi'u cynnwys yn y rhaglen brechiadau rhag y ffliw. Yn ddiweddarach yn y cyfarfod, roedd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yn gallu cadarnhau bod holl staff ysgolion wedi cael cynnig brechiad rhag y ffliw a byddai'n atgoffa Penaethiaid mewn cyfarfod a oedd i ddod.

**Llywodraethu**

Soniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) am gyfraddau adennill gwell o ran Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, a oedd wedi'u dylanwadu gan y pandemig, a llwyth gwaith ychwanegol y tîm Refeniw o ran dosbarthu grantiau LIC. Roedd capasiti ychwanegol i weithio gyda thenantiaid wedi'i gytuno i helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd o ran ôl-ddyledion rhent. Roedd y diweddariad hefyd yn cynnwys cynnydd ag ehangiad parhaus dulliau digidol o ddarparu gwasanaethau.

Gan ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Clive Carver, rhoddodd y Prif Swyddog eglurhad ar y broses ar gyfer cyfarfodydd o bell a oedd yn ffurfio rhan o'r polisi aml-leoliad a oedd i gael ystyriaeth gan y Cyngor.

Rhannwyd gwybodaeth gyda'r Cynghorydd Hilary McGuill am y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a oedd yn cael ei reoli gan y tîm Budd-daliadau. Siaradodd y Prif Weithredwr am ddull y Cyngor o reoli ei gostau ynni ei hun hefyd, a'r elfen o gefnogaeth i fusnesau trwy Lywodraeth y DU.

**Adfer Gwasanaethau/Adfer Cymunedol/Adfer Rhanbarthol**

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cynlluniau parhad busnes wedi'u hadnewyddu a bod blaenoriaethau bellach yn canolbwyntio ar ymateb er mwyn alinio â cham presennol y pandemig. Roedd adroddiad manwl am adferiad economaidd wedi'i gynnwys mewn eitem ddiweddarach ar y rhaglen. O ran adferiad rhanbarthol, roedd y Grŵp Cydgysylltu Adferiad wedi'i ailddechrau er mwyn delio â'r sefyllfa bresennol, ac roedd Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn parhau i gael ei defnyddio fel canolfan frechu.

Gan ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd, dywedodd y Prif Weithredwr fod yr ymateb wedi'i addasu er mwyn adlewyrchu amrywiolyn Omicron. Ymatebodd i bwynt y Cynghorydd Marion Bateman hefyd am effaith cyfnod ynysu llai ar y gweithlu a'r economi.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cadeirydd a'i eilio gan y Cynghorydd Hilary McGuill.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd gan gynnydd o ran bodloni'r amcanion adfer.

## 54. PROFFIL RISG ADFERIAD CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad am y Gofrestr Risg Adferiad Corfforaethol a Mesurau Lliniaru a oedd yn dangos bod risgiau'n parhau i gael eu rheoli'n dda trwy gydol y sefyllfa frys.

Roedd yr wyth risg a oedd yn cynyddu o ran tueddiadau risg yn ymwneud yn bennaf ag absenoldebau staff a galw ychwanegol ar wasanaethau, a oedd yn adlewyrchu cam presennol y pandemig. Yn dilyn sylwadau'r Cadeirydd ar argaeledd gweithwyr allweddol a throsiant y gweithlu, cydnabu'r Prif Weithredwr effaith y pandemig ar ddewisiadau bywyd unigolion, nad oedd yn unigryw i Sir y Fflint. Cyfeiriodd at y fframwaith mwy a oedd wedi'i roi ar waith i gefnogi gweithwyr.

Cynigiodd y Cadeirydd argymhelliad ychwanegol, sef bod gohebiaeth yn cael ei hanfon at bob gweithiwr i fynegi gwerthfawrogiad am eu gwaith ar draws y sefydliad a'r effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Hilary McGuill.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r gofrestr risg ddiweddaraf a chamau lliniaru risg o fewn y portffolios corfforaethol; a

(b) Bod gohebiaeth yn cael ei hanfon at bob gweithiwr i ddiolch iddynt am eu gwaith caled yn ystod y pandemig ac i amlinellu pa mor werthfawr yw eu swyddi i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynnal.

## 55. RISGIAU A MATERION O FEWN PORTFFOLIOS AC ADBORTH O DROSOLWG A CHRAFFU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gyda meysydd risg ar gyfer pob un o'r pum portffolio gwasanaeth ac adborth am y materion hynny gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, fel a nodir yn yr adroddiad.

### Addysg ac Ieuenctid

Wrth grynhoi'r prif feysydd risg, rhoddodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) wybodaeth am ddull gweithredu a ddilynwyd i nodi lefelau cadernid ysgolion wrth iddynt nesáu at wyliau'r Nadolig a bod newid i ddysgu o bell - gan ymgynghori â Llywodraeth Cymru (LIC) - wedi'i groesawu gan Benaethiaid a'r rhan fwyaf o rieni. Roedd gofyniad parhaus am gyllid grant ychwanegol i ddarparu cefnogaeth angenrheidiol i fynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar ddisgyblion o bob oed. Risg uchel arall oedd gallu ysgolion i ddelio â heriau fel absenoldebau staff ynghyd â newidiadau deddfwriaethol a pharatoadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Roedd sefyllfa LIC o ran arholiadau ysgol yn cael ei monitro'n agos. Roedd paratoadau ar y gweill i ysgolion gynnal asesiadau risg yn barod ar gyfer ailagor ym mis Ionawr. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa pob ysgol yn cael ei rhannu gyda phob Aelod pan fyddai'r data wedi'i gasglu yn ddiweddarach yn y dydd.

Diolchodd y Cynghorydd David Healey i'r Prif Swyddog a'i thîm am eu cefnogaeth i ysgolion a Phenaethiaid. Gan ymateb i gwestiwn am wella awyriad mewn ysgolion, dywedodd y byddai cyllid ychwanegol gan LlC yn galluogi'r Cyngor i asesu lle ddylai gwaith adfer gael ei flaenoriaethu.

Yn dilyn sylwadau gan y Cadeirydd, dywedodd y Prif Swyddog fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid wedi trafod y nifer gynyddol o blant sy'n cael eu haddysgu gartref ac effaith hynny ar gyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol. O ran yr heriau wrth gyrchu staff cyflenwi, a oedd wedi cynyddu'n genedlaethol yn ystod y pandemig, byddai'n rhannu'r awgrym i LlC gysylltu â'r sefydliadau hynny i ailadrodd eu gwerth o ran darparu gwasanaeth.

**Tai ac Asedau**

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr effaith y pandemig ar incwm rhenti unwaith eto, a'r gefnogaeth sydd ar gael i denantiaid sy'n cael anhawster, a oedd yn barod i ymgysylltu â'r Cyngor. Roedd y sefyllfa o ran pobl a oedd yn datgan eu bod yn ddigartref yn parhau i gael ei monitro, a byddai cyllid ychwanegol gan LlC yn helpu i gynyddu capasiti staff a gwasanaethau cefnogi eraill a gomisiynir. Roedd risgiau parhaus o ran adnoddau deunydd crai a chostau yn cael eu hadlewyrchu'n genedlaethol.

**Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi**

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod cadernid y tîm wedi elwa o ymgyrch recriwtio lwyddiannus, ac eithrio swydd wag heb ei llenwi yn y tîm Draenio a Diogelu rhag Llifogydd. O ran y Cynllun Datblygu Lleol, disgwyliwyd ymateb gan yr Arolygiaeth Gynllunio cyn cam nesaf yr ymgynghori o ran y newidiadau.

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

Dywedodd yr Uwch Reolwr - Plant fod prif feysydd galw ar wasanaethau o ganlyniad i bwysau ar y tri ysbyty lleol a bod gwaith amddiffyn plant wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i achosion cenedlaethol yn codi ymwybyddiaeth. Eglurodd y dull o flaenoriaethu gwaith y Gwasanaethau Plant fesul achos a rhoddodd sicrwydd fod gwasanaethau diogelu yn cael eu cynnal, er bod hynny'n cael effaith tymor byr ar fodelau arfer da. Roedd dewisiadau'n cael eu harchwilio i gynyddu capasiti ac adleoli staff i gefnogi meysydd oedd dan bwysau.

Gofynnodd y Cadeirydd beth ellid ei wneud am ddiffyg gofal cymdeithasol estynedig a'i effaith ar gyfraddau rhyddhau o'r ysbyty, a oedd yn broblem genedlaethol. Fel gyda phortffolios eraill, dywedodd yr Uwch Reolwr fod rhai unigolion wedi dewis gadael gwasanaethau i ddilyn cyfleoedd cyflogaeth amgen yn ystod y pandemig. Byddai gweithgor a sefydlwyd gydag Adnoddau Dynol yn edrych ar recriwtio a chadw staff ar draws y sefydliad er mwyn cynyddu capasiti a nodi datrysiadau hirdymor.

Dywedodd y Cadeirydd fod cadw'r gweithlu yn amlwg yn risg a rennir ar draws portffolios. Gan ymateb i sylwadau, cydnabu'r Uwch Reolwr fod galw ar

Wasanaethau Cymdeithasol yn dod yn fwy heriol a byddai'r feirws sy'n peri pryder yn cael ei fonitro'n agos dros yr wythnosau nesaf.

Gan ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Hilary McGuill dywedodd yr Uwch Reolwr fod cyfleoedd datblygu gyrfa yn rhan allweddol o'r ymgyrch recriwtio ym maes gofal cymdeithasol. Cydnabu bryderon diogelu o ran y nifer gynyddol o blant a oedd yn cael eu haddysgu gartref neu a oedd yn absennol o'r ysgol oherwydd Covid, yn yr un modd â'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) a roddodd sicrwydd bod cydweithio agos rhwng cydweithwyr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn digwydd yn rheolaidd a thrwy'r Panel Diogelu Corfforaethol.

Soniodd y Cynghorydd Christine Jones am effeithiolrwydd y panel a rhannodd bryderon am ddiffyg deddfwriaeth o ran addysg ddewisol yn y cartref.

Dywedodd yr Hwylusydd fod llythyr a oedd yn amlygu'r un pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant wedi'i anfon at LlC a byddai'r ymateb yn cael ei ddosbarthu i bob Aelod.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod diogelu yn gyfrifoldeb a rennir ar draws portffolios, wedi'i gefnogi gan sesiynau hyfforddiant.

Wrth ganmol gwaith timau Gwasanaethau Cymdeithasol, gofynnodd y Cynghorydd Marion Bateman am nifer y cleifion yn Sir y Fflint a oedd yn aros am becynnau gofal ar hyn o bryd i'w galluogi i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Rhoddodd yr Uwch Reolwr sicrwydd fod timau'n gweithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael â'r sefyllfa cymaint ag sy'n bosibl, er bod niferoedd yn cynyddu. Byddai'n gofyn am ddiweddariad am y sefyllfa bresennol gan Susie Lunt.

**Gwasanaethau Stryd a Chludiant**

Rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) y wybodaeth ddiweddaraf am ffigurau absenoldeb salwch a oedd wedi cynyddu ers cyhoeddi'r adroddiad, ac effaith newidiadau deddfwriaethol ar brofion Covid a rheolau hunanardystio. Roedd materion recriwtio yn ffactor i rai meysydd, gan gynnwys gyrwyr cerbydau nwyddau trwm. Roedd yn bleser nodi bod casgliadau gwastraff a safleoedd ailgylchu wedi rhedeg yn esmwyth dros gyfnod y Nadolig ar ôl i staff gael eu hadleoli ac i weithwyr asiantaeth gael eu defnyddio. Roedd materion staffio contractwyr wedi arwain at rywfaint o amhariad i'r gadwyn gyflenwi ac roedd oedi wrth gael cymeradwyaeth reoleiddiol yn effeithio ar rai cynlluniau.

Gofynnodd y Cadeirydd am y risg bosibl i gyllid grant a dywedwyd bod cyfarfodydd gyda LlC yn parhau er mwyn canfod y sefyllfa.

Wrth ddiolch i'r uwch swyddogion am eu diweddariadau llawn gwybodaeth, cynigiodd y Cadeirydd yr argymhelliad ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Marion Bateman.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cynnydd y meysydd o risg a amlygwyd o fewn y pum portffolio a nodwyd yn y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor hwn yn cael eu nodi.

**56. <u>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ECONOMI SIR Y FFLINT</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad am amodau economaidd presennol yn Sir y Fflint ac ar draws y rhanbarth, yng nghyd-destun sefyllfa'r DU. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith i ymateb i adferiad economaidd a rhaglenni gwaith hefyd.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth - Menter ac Adfywio fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r cam trawsnewid presennol gan atgyfnerthu sefyllfa Sir y Fflint fel un o'r economïau cryfaf yng Nghymru. Er bod llai o achosion o ddileu swyddi ar raddfa fawr nag a ragwelwyd, roedd yr heriau o ran recriwtio a chadw staff wedi cynyddu trwy gydol y pandemig. Dau fater sylweddol oedd diffyg safleoedd ac eiddo addas ar gyfer buddsoddi a recriwtio i sectorau allweddol. Nodwyd y gwaith rhanbarthol i gefnogi adferiad economaidd gan gynnwys y pecynnau o fesurau cefnogi a ddatblygwyd ac a oedd yn aros am benderfyniadau cyllid. Byddai'r grŵp lleol yn sicrhau bod ffrydiau gwaith yn cael eu cydlynu'n effeithiol er mwyn darparu'r effaith orau i Sir y Fflint. Yn ystod trosolwg o'r cynlluniau allweddol, nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i wella data ar ganol trefi ac roeddent yn aros am ganlyniad cynllun peilot Llywodraeth Cymru (LlC) ar Fenthyciadau Entrepreneuriaeth Canol Trefi.

Diolchwyd i'r swyddogion am yr adroddiad manwl. Galwodd y Cynghorydd David Healey ar y Llywodraeth i ddarparu mwy o gymhelliant i fusnesau gymryd prentisiaid. Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth am waith lleol a rhanbarthol i wella llif gwybodaeth i annog dysgwyr, ac o ganlyniad i'r pandemig, roedd llawer o fusnesau yn croesawu cyfleoedd am brentisiaethau.

Gan ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Clive Carver am raddau'r gwelliannau digidol ar draws y Sir gan gynnwys ei ward ef, cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth at ffrydiau gwaith dan y Strategaeth Ddigidol a Bargen Dwf Gogledd Cymru, a byddai'n trafod pryderon y Cynghorydd Carver ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.

Croesawodd y Cynghorydd Derek Butler yr adroddiad a oedd yn amlygu'r economi gadarn yn Sir y Fflint a nodi materion ar gyfer gwelliant pellach. Dywedodd fod prinder sgiliau a heriau recriwtio yn amlwg cyn y pandemig a Brexit, a dylai'r Cyngor barhau i gyflwyno sylwadau i LlC i gynyddu cyfleoedd am brentisiaethau.

Dywedodd y Cynghorydd Hilary McGuill a'r Cynghorydd Marion Bateman nad oedd y diffyg unedau masnachol oedd ar gael yn annog busnesau i ehangu. Gan ymateb i gwestiwn, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth eglurder ar ddyrannu'r rownd ddiweddaraf o gyllid grant i fusnesau a byddai'n gwirio a oedd cymhellion cyllid newydd i annog cyflogwyr i dderbyn prentisiaid.

Rhoddodd y Cynghorydd Derek Butler deyrnged i waith y Rheolwr Gwasanaeth a'r Rheolwr Refeniw a'u timau wrth reoli cyllid grant i fusnesau. Cytunodd â phryderon am ddiffyg unedau diwydiannol ac awgrymodd efallai byddai'r Cyngor am roi ystyriaeth i lunio rhaglen i fodloni'r galw.

O ran unedau diwydiannol, eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) rôl y Cyngor o ran argaeledd tir a rhoddodd enghreifftiau o geisiadau ar amryw o safleoedd. Cyfeiriodd Aelodau at adroddiad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi a oedd ar y gweill am y dull arfaethedig i wneud cais i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU i gynyddu buddsoddiad yn yr ystâd eiddo masnachol.

Wrth groesawu'r adroddiad, dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn mynd i'r afael yn llawn â chanol trefi a dylai gwybodaeth am ffrydiau gwaith gynnwys amserlen i fonitro cynnydd. Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y byddai penodi swyddog canol tref yn cefnogi'r gwaith hwn.

Gan ymateb i awgrym gan y Cadeirydd am ymgysylltu ag ysgolion i fynd i'r afael â'r diffyg o ran sgiliau, cadarnhaodd swyddogion fod y mater wedi'i nodi fel risg strategol ac roedd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, yn ogystal â ffrydiau gwaith lleol.

Yn dilyn trafodaeth am y dull gorau, awgrymodd yr Hwylusydd fod llythyr yn cael ei anfon at y Bwrdd Uchelgais Economaidd i ganfod eu cynlluniau i ymgysylltu â'r sector addysg ac i fynegi barn y Pwyllgor, a chroesawodd y Cadeirydd hyn.

Gwnaeth y Prif Weithredwr awgrym pellach, sef fod cynrychiolydd o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cael eu gwahodd i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am hyrwyddo sgiliau yn y sector addysg. Byddai'n cysylltu â'r Prif Swyddog a'r Hwylusydd am hyn. Cynigiodd y Cadeirydd yr argymhelliad ychwanegol, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod cynnwys a chasgliadau'r adroddiad yn cael eu cefnogi; a

(b) Bod llythyr yn cael ei anfon at y Bwrdd Uchelgais Economaidd i wahodd cynrychiolydd i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Mawrth i amlinellu cynlluniau/ffrydiau gwaith yn y dyfodol gyda'r sector addysg i hyrwyddo'r cyfleoedd addysgol/gwaith ar draws Gogledd Cymru.

## 57. DIWEDDARIAD ADFERIAD CYMUNEDOL

Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) drosolwg o'r sleidiau cyflwyno a rannwyd o'r blaen gyda'r Pwyllgor ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd a chynnydd ar y pedwar blaenoriaeth:

- Iechyd meddwl
- Gwella ein hamgylchedd
- Plant a phobl ifanc
- Tlodi a chynhwysiant

Byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Ar y sail honno, cafodd yr adroddiad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Patrick Heesom a'r Cynghorydd Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r cyflwyniad.

## 58. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Gan mai dyddiad dros dro oedd cyfarfod mis Chwefror a neilltuwyd ar gyfer unrhyw fater brys, yr eitemau a gytunwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf a oedd wedi'i drefnu ar 3 Mawrth 2022 oedd:

- Amcanion Adferiad Corfforaethol
- Proffil Risg Adferiad Corfforaethol
- Datganiad sefyllfa wedi'i ddiweddaru ar risgiau ar gyfer pob portffolio
- Diweddariad Adferiad Cymunedol
- Yr eitem a ofynnwyd amdani ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn dibynnu a fydd y cynrychiolwyr hynny ar gael

Cafodd hyn ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Patrick Heesom a'r Cynghorydd Marion Bateman.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Yn amodol ar yr angen i ystyried unrhyw fater brys, bod cyfarfod mis Chwefror yn cael ei ganslo; a

(b) Bod yr eitemau a awgrymwyd ar gyfer cyfarfod mis Mawrth yn cael eu cefnogi.

## 59. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG

Dim.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 1.10pm.

……………………………………..
**Y Cadeirydd**